Y Comisiwn Etholiadol

Sefyllfaoedd a gweithdrefnau – Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon

Gwiriadau a yw rhoddwyr yn ganiataol i ymgeiswyr

Mae'r ddogfen hon ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid mewn etholiadau yn y Deyrnas Unedig sydd eisiau gwybod mwy am sut i wirio os yw rhoddwyr yn un a ganiateir.

Cynnwys:

Pwy sy'n rhoddwyr a ganiateir

Sut i wirio pwy a ganiateir

Beth sydd arnoch angen ei gofnodi

Termau ac ymadroddion a ddefnyddir gennym

Rydym yn defnyddio ‘rhaid’ pan fyddwn yn cyfeirio at ofyn cyfreithiol neu reoleiddiol penodol. Rydym yn defnyddio ‘dylech’ ar gyfer eitemau yr ydym yn ystyried eu bod yn arfer da, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Nid oes raid i chi ddilyn y cyfarwyddyd hwn, ond os gwnewch hynny, byddwch, fel arfer, yn gwneud digon i gydymffurfio â’r gyfraith.

Ein hymagwedd at orfodi

Os na fyddwch yn cydymffurfio â’r gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol fe allwch chi a’ch sefydliad fod yn ddarostyngedig i gosbau sifil neu droseddol. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ymagwedd y Comisiwn at orfodi yn www.electoralcommission.org.uk/party-finance/enforcement.

Gwiriadau a yw rhoddwyr yn ganiataol i ymgeiswyr

Ar gyfer pwy mae'r ddogfen hon:

Ymgeiswyr ac asiantiaid mewn etholiadau yn y Deyrnas Unedig sydd eisiau gwybod mwy am sut i wirio os yw rhoddwyr yn un a ganiateir.

Mae'n trafod:

- Pwy sy'n rhoddwyr a ganiateir
- Sut i wirio pwy a ganiateir
- Beth sydd arnoch angen ei gofnodi

Dogfennau cysylltiedig:

- Trosolwg o roddion i ymgeiswyr

2

Crynodeb

Mae rhoddion i ymgeiswyr mewn etholiadau wedi eu rheoleiddio gan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 neu ddeddfwriaeth debyg.

Dim ond gan rai ffynonellau y gallwch eu derbyn, rhai o'r Deyrnas Unedig yn bennaf.

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn esbonio sut i wirio os gallwch dderbyn rhodd o ffynhonnell benodol ac mae'n dweud wrthych pa wybodaeth fydd arnoch angen ei chofnodi.

Bydd yr wybodaeth y byddwch yn ei chofnodi yn eich helpu i lenwi eich cofnod gwariant y mae'n rhaid i chi gyflwyno i ni ar ôl yr etholiad.

Gwirio a yw'n ganiataol

Pwy sy'n gyfrifol am wirio pwy sy'n ganiataol?

Yr ymgeisydd sy'n gyfrifol am wirio rhoddion, oni bai y penodir asiant etholiad. Os penodir asiant etholiad, nhw sy'n gyfrifol am wirio rhoddion.

Wedi penodi asiant etholiad, rhaid trosglwyddo pob rhodd ymlaen atynt cyn gynted â phosibl.

Yn y cyfarwyddyd hwn, rydym yn defnyddio '**chi**' i gynnwys y sawl sy'n gyfrifol am wirio rhoddion.

Cyn i chi dderbyn unrhyw rodd o fwy na £50 i'r diben o dalu costau etholiadol, rhaid i chi gymryd pob cam rhesymol i:

- wneud yn siŵr eich bod yn gwybod pwy yw'r gwir ffynhonnell
- wirio bod y ffynhonnell yn ganiataol

Am ragor o wybodaeth gweler y ddogfen hon:

- Trosolwg o roddion i ymgeiswyr

Faint o amser sydd gennyf i wirio a yw rhywun yn ganiataol?

Pan fyddwch yn derbyn rhodd o fwy na £50, rhaid i chi sicrhau ar unwaith eich bod yn gwybod pwy yw'r rhoddwr a bod y rhodd wedi dod o ffynhonnell a ganiateir. Os yw rhywun wedi trosglwyddo rhodd ymlaen ar ran rhywun arall, rhaid i chi drin hyn fel rhodd o'r ffynhonnell wreiddiol, ac nid gan yr unigolyn sy'n ei throsglwyddo ymlaen.

Mae gennych 30 niwrnod i wirio'r ffynhonnell a phenderfynu a allwch dderbyn y rhodd.

Pwysig

Os nad yw'n hollol amlwg pwy ddylech chi ei drin fel rhoddwr, dylech wirio'r ffeithiau i wneud yn siŵr.

4

Beth yw ffynhonnell ganiataol?

Mae ffynhonnell ganiataol yn un o'r canlynol:

- Unigolyn a gofrestrwyd ar gofrestr etholwyr yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys etholwyr tramor a'r rhai sy'n gadael cymynroddion
- Plaid wleidyddol wedi cofrestru ym Mhrydain Fawr
- Plaid wleidyddol wedi cofrestru yng Ngogledd Iwerddon (dim ond os ydych yn sefyll etholiad yng Ngogledd Iwerddon)
- Cwmni a gofrestrwyd yn y Deyrnas Unedig sydd wedi ei ymgorffori yn yr Undeb Ewropeaidd ac yn cynnal ei fusnes yn y Deyrnas Unedig
- Undeb llafur sydd wedi cofrestru yn y DU
- Cymdeithas adeiladu sydd wedi cofrestru yn y DU
- Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig a gofrestrwyd yn y Deyrnas Unedig sy'n cynnal ei busnes yn y Deyrnas Unedig
- Cymdeithas gyfeillgar a gofrestrwyd yn y Deyrnas Unedig
- Cymdeithas anghorfforedig o'r Deyrnas Unedig sy'n cynnal busnes neu weithgareddau yn y Deyrnas Unedig

Gallwch hefyd dderbyn rhoddion oddi wrth fathau penodol o ymddiriedolaethau ac o gymynroddion. Mae'r rheolau ar y rhoddion hyn yn gymhleth, felly os gwelwch yn dda cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth.

Er bod cyfraith etholiadol yn caniatáu i chi dderbyn rhoddion gan elusennau sy'n gwmnïau cofrestredig, nid yw elusennau fel rheol yn cael rhoi rhoddion gwleidyddol o dan y gyfraith elusennau. Dylech wirio bod unrhyw elusen sy'n cynnig rhodd i chi wedi cymryd cyngor gan y Comisiwn Elusennau cyn i chi ei derbyn.

Sut i wirio a yw unigolyn yn ganiataol

Beth sy'n gwneud unigolyn yn un a ganiateir?

Rhaid i unigolion fod ar gofrestr etholwyr yn y Deyrnas Unedig ar adeg y rhodd. Mae hyn yn cynnwys etholwyr tramor.

Sut allwch chi wirio a yw'n unigolyn a ganiateir?

Gallwch ddefnyddio'r gofrestr etholwyr i wirio a yw unigolyn yn un a ganiateir. Mae gennych hawl i gopi am ddim o'r gofrestr etholiadol lawn yn y cyfnod cyn etholiad. Dim ond ar gyfer gwirio a yw rhoddwr yn un a ganiateir neu ddibenion etholiad eraill y gallwch ddefnyddio'r gofrestr. Rhaid i chi beidio a'i throsglwyddo i unrhyw un arall.

Dylech gysylltu ag adran etholiadau eich cyngor lleol i gael copi, gan esbonio eich bod yn gofyn amdano fel ymgeisydd neu fel asiant etholiad ar ran yr ymgeisydd.

Dylech hefyd ofyn iddynt anfon pob diweddariad atoch.

Rhaid i chi wirio'r gofrestr a'r diweddariadau yn ofalus i wneud yn siŵr bod yr unigolyn ar y gofrestr ar y dyddiad y gwnaethoch chi dderbyn y rhodd.

Dan amgylchiadau arbennig, mae gan bobl gofrestriad dienw. Os bydd rhoddwr wedi cofrestru'n ddienw, cysylltwch â ni am gyngor ar sut i gadarnhau a yw'n rhoddwr a ganiateir.

Am ragor o wybodaeth am pryd fydd rhywun yn dod yn ymgeisydd mewn etholiad i'r diben o gael gopi o'r cofrestr etholiadol, gweler ein tudalen ganllaw ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid.

Pwysig

Beth sydd arnoch angen ei gofnodi?

Rhaid i chi gofnodi:

- Enw llawn y rhoddwr
- Y cyfeiriad fel y mae'n cael ei ddangos ar y gofrestr etholwyr, neu os yw'r unigolyn yn etholwr tramor, ei gyfeiriad cartref

6

Sut i wirio a yw cwmni yn un a ganiateir

Beth sy'n gwneud cwmni yn rhoddwr a ganiateir?

Mae cwmni yn un a ganiateir os:

- yw'n gwmni cofrestredig yn Nhŷ'r Cwmnïau
- yw wedi ei ymgorffori mewn Aelod Wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd, ac
- yn cynnal busnes yn y Deyrnas Unedig

Rhaid i chi wneud yn siŵr bod y cwmni yn bodloni'r tri maen prawf.

Sut ddylwn i wirio cofrestriad cwmni a'i fod wedi ei ymgorffori yn yr Undeb Ewropeaidd?

Dylech wirio'r gofrestr yn Nhŷ'r Cwmnïau, gan ddefnyddio'r gwasanaeth gwirio am ddim ar y we yn www.companieshouse.gov.uk.

Dylech edrych ar y cofnod llawn ar y gofrestr ar gyfer y cwmni.

Er mwyn gwirio bod y cwmni yn un a ganiateir, rhaid i chi edrych ar ei rif cofrestredig. Rhif yn unig fydd gan rai cwmnïau. Mae gan gwmnïau eraill lythyren o flaen y rhif.

Mae'r tabl isod yn dangos a yw cwmni gyda llythyren flaen benodol yn un a ganiateir, cyn belled â'i fod yn cynnal busnes yn y Deyrnas Unedig hefyd.

Defnyddiwch wasanaeth gwirio ar y we am ddim Tŷ'r Cwmnïau yn: www.companieshouse.gov.uk

Llythyren flaen	A yw'n gwmni a ganiateir?
Dim	Ydi
NI, SC	Ydi
FC, NF, SF	Ydi, os yw 'gwlad wreiddiol' ar gofnod y gofrestr yn Aelod Wladwriaeth i'r Undeb Ewropeaidd
OC3, SO3	Ydi, fel partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig – gweler yr adran ar wahân isod
IP, SP, NP	Efallai – gweler cymdeithasau diwydiannol a darbodus yn yr adran 'Mathau eraill o roddwyr' ar dudalen 11
Unrhyw lythyren flaen arall	Nac ydi

Sut allwch chi wirio bod y cwmni yn cynnal ei fusnes yn y Deyrnas Unedig?

Rhaid i chi fod yn fodlon bod y cwmni yn cynnal busnes yn y Deyrnas Unedig. Gall y busnes fod yn un nid er elw.

Hyd yn oed os oes gennych wybodaeth bersonol uniongyrchol am y cwmni, dylech wirio cofrestr Tŷ'r Cwmnïau i weld:

- a yw'r cwmni yn fethdalwr, yn gwsg, neu ar fin cael ei dynnu oddi ar y gofrestr
- a yw cyfrifon a ffurflen flynyddol y cwmni yn hwyr

Gall cwmni fod yn dal i gynnal busnes os yw'n fethdalwr, yn gwsg, neu yn hwyr yn anfon dogfennau, ond fe ddylech gynnal gwiriadau ychwanegol i fodloni'ch hun bod hynny'n wir.

Ar gyfer unrhyw gwmni, dylech ystyried edrych ar:

- wefan y cwmni
- cyfeiriaduron masnach, ffôn perthnasol neu wefannau gydag enw da
- y cyfrifon diweddaraf a anfonwyd i Dŷ'r Cwmnïau

Os byddwch yn dal yn ansicr a yw'r cwmni yn cynnal busnes yn y Deyrnas Unedig, dylech ofyn am gadarnhad ysgrifenedig o'i weithgareddau busnes gan gyfarwyddwyr y cwmni.

Os byddwch yn dal yn ansicr a yw'r cwmni yn un a ganiateir, ffoniwch ni neu anfonwch e-bost i gael cyngor.

8

Beth sydd arnoch angen ei gofnodi?

Rhaid i chi gofnodi:

- Yr enw fel mae'n cael ei ddangos ar y gofrestr
- Cyfeiriad swyddfa gofrestredig y cwmni
- Rhif cofrestredig y cwmni

Partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig

Beth sy'n gwneud partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn rhoddwr a ganiateir?

Bydd partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn rhoddwr a ganiateir os yw:

- wedi cofrestru fel partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn Nhŷ'r Cwmnïau
- yn cynnal busnes yn y Deyrnas Unedig

Sut allwch chi wirio a yw'n gymdeithas a ganiateir?

Dylech wirio'r gofrestr yn Nhŷ'r Cwmnïau, gan ddefnyddio'r gwasanaeth gwirio am ddim ar y we yn www.companieshouse.gov.uk.

Rhaid i chi edrych ar rif cofrestredig y bartneriaeth. Dim ond rhifau yn cychwyn gyda OC3 neu SO3 sy'n bartneriaethau atebolrwydd cyfyngedig a ganiateir.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn yr adran flaenorol 'Sut allwch chi wirio bod y cwmni yn cynnal busnes yn y Deyrnas Unedig?' ar y dudalen flaenorol.

Defnyddiwch wasanaeth gwirio ar y we am ddim Tŷ'r Cwmnïau yn: www.companieshouse.gov.uk

Beth sydd arnoch angen ei gofnodi?

Rhaid i chi gofnodi:

- Yr enw fel mae'n cael ei ddangos ar y gofrestr
- Cyfeiriad swyddfa gofrestredig y bartneriaeth

Cymdeithasau anghorfforedig

Beth sy'n gwneud cymdeithas anghorfforedig yn rhoddwr a ganiateir?

Mae cymdeithas anghorfforedig yn rhoddwr a ganiateir os:

- oes ganddi fwy nag un aelod
- yw'r brif swyddfa yn y Deyrnas Unedig
- yw'n cynnal ei busnes neu weithgareddau eraill yn y Deyrnas Unedig

Sut allwch chi wirio a yw'n gymdeithas a ganiateir?

Nid oes cofrestr o gymdeithasau anghorfforedig.
Rhaid profi a yw'n un a ganiateir ym mhob achos.

Yn gyffredinol, dylai cymdeithas anghorfforedig gael:

- aelodau y gellir eu hadnabod, a
- rheolau neu gyfansoddiad, a
- bodolaeth ar wahân i'w haelodau

Er enghraifft, mae clybiau aelodau weithiau yn gymdeithasau anghorfforedig.

Os nad ydych yn siŵr bod cymdeithas yn bodloni'r meini prawf, dylech ystyried a yw'r rhodd gan unigolion o'i mewn (yn hytrach na gan y gymdeithas) neu a oes rhywun yn y gymdeithas yn gweithredu fel asiant dros eraill.

Os credwch fod hyn yn wir, rhaid i chi wirio a yw'r holl unigolion sydd wedi cyfrannu mwy na £50 yn rhai a ganiateir a'u trin fel y rhoddwyr.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar gynnal busnes yn yr adran flaenorol 'Sut allwch chi wirio a yw'r cwmni yn cynnal busnes yn y Deyrnas Unedig?' ar dudalen 7.

Os hoffech gael rhagor o gyfarwyddyd ar gymdeithasau anghorfforedig a phwy a ganiateir, ffoniwch ni neu anfonwch e-bost atom.

10

Beth sydd arnoch angen ei gofnodi?

Bydd arnoch angen cofnodi:

- Enw'r gymdeithas anghorfforedig
- Cyfeiriad prif swyddfa'r cwmni

Mathau eraill o roddwyr

Mae'r tabl isod yn dangos sut i wirio a yw mathau eraill o roddwyr yn rhai a ganiateir.

Math o roddwr	Gofyniad	Ble i wirio
Plaid wleidyddol	Os ydych yn sefyll etholiad ym **Mhrydain Fawr**, rhaid i'r blaid fod wedi cofrestru ar gofrestr pleidiau gwleidyddol Prydain Fawr. Os ydych yn sefyll etholiad yng **Ngogledd Iwerddon**, rhaid i'r blaid wleidyddol fod wedi cofrestru ar gofrestr pleidiau gwleidyddol Prydain Fawr **NEU** ar gofrestr Gogledd Iwerddon.	Y Comisiwn Etholiadol www.electoralcommission.org.uk
Undeb llafur	Wedi ei rhestru fel undeb llafur gan y Swyddog Ardystio	Y Swyddog Ardystio www.certoffice.org
Cymdeithas adeiladu	Cymdeithas adeiladu yn yr ystyr a roddir yn Neddf Cymdeithasau Adeiladu 1986	Yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol http://mutuals.fsa.gov.uk
Cymdeithas Gyfeillgar/Ddiwydiannol a darbodus	Cofrestrwyd dan Ddeddf Cymdeithasau Cyfeillgar 1974 neu'r Ddeddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965	Yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol http://mutuals.fsa.gov.uk

12

Beth sydd arnoch angen ei gofnodi?

Bydd arnoch angen cofnodi:

- Enw'r rhoddwr
- Y cyfeiriad, fel mae'n cael ei ddangos ar y gofrestr berthnasol

Sut gallwn ni helpu

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn y dogfennau cyfarwyddyd yr ydym wedi eu hawgrymu yn y ddogfen hon, neu gallwch weld ein dewis llawn o gyfarwyddyd ac adnoddau cyfredol ar ein gwefan.

Os yw hynny'n haws, gallwch hefyd gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i'ch helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch ni ar:

- **Lloegr:** 020 7271 0616
  pef@electoralcommission.org.uk
- **Yr Alban:** 0131 225 0200
  infoscotland@electoralcommission.org.uk
- **Cymru:** 029 2034 6800
  infowales@electoralcommission.org.uk
- **Gogledd Iwerddon:** 028 9089 4020
  infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ewch i'n gwefan yn www.electoralcommission.org.uk

Rydym yn croesawu adborth ar ein cyfarwyddyd – anfonwch e-bost atom yn: pef@electoralcommission.org.uk

14

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth ynghylch cael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall neu fersiwn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk